DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL **Rheoliadau Mewnforio Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid a Gwledydd Cymeradwy (Diwygio) 2022**

DYDDIAD **29 Mawrth 2022**

GAN **Lesley Griffiths AS/MS**

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Bydd Aelodau'r Senedd am fod yn ymwybodol fy mod yn rhoi caniatâd i Ysgrifennydd Gwladol y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig arfer pŵer i wneud rheoliadau mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Bydd yr Offeryn Statudol (OS) uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 8(1) a (6) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Mae'r OS yn gwneud diwygiadau technegol i sawl darn o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gadwyd i gywiro diffygion sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd. Yn benodol, maent yn gwneud newidiadau i'r prosesau a ddefnyddir i restru trydydd gwledydd gan y DU, mewn perthynas â chyflyrau iechyd a osodir ar wledydd eraill mewn perthynas â mewnforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid.

Bydd yr Offeryn Statudol yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud newidiadau yn yr amodau mewnforio ar gyfer anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid sy'n dod i Brydain Fawr yn y dyfodol, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru i bennu newidiadau o'r fath mewn dogfen a gyhoeddir at y diben penodol hwnnw, yn hytrach na gwneud newidiadau o'r fath yng nghyfraith yr UE a ddargedwir drwy offeryn statudol bob tro y bydd angen newid.

Disgwylir i'r rheoliadau gael eu gosod ar ffurf drafft gerbron y Senedd ar 30 Mawrth 2022 i ddod i rym ar 01 Gorffennaf 2022.